

PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 20 GORFFENAF 2023

PRESENNOL Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

J.M. Charles	P. Cooper	M. Donoghue	J.K. Howell
A.C. Jones	A. Leyshon	B.D.J. Phillips	E. Skinner
G.B. Thomas	M. Thomas		

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen	T. Davies	J.P. Jenkins	M.J.A. Lewis
D. Owen	R. Sparks		

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd L. Davies, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/05763 (Yn y Siambr)

Y Cynghorydd D. Thomas, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/05635 (Yn y Siambr)

Y Cynghorydd K. Davies, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/05971 (Yn rhithwir)

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio

J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)

S. Martin, Solicitor

M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

A. Eynon, Prif Gyfieithydd

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

D. Davies, Arweinydd y Tîm Cymorth TGCh

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 ac o bell 1JP - 10.00 yb - 11.50 yb

(NODER: Am 11.10am cafodd y Pwyllgor egwyl o 10 munud, cyn ailgynnull am 11:20am.)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr N. Evans a D.E Williams.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Cynghorydd/Swyddog	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd J.K. Howell	3: PL/04739 - Codi preswylfa menter wledig a gwaith cysylltiedig yn Nhreale, Felindre, Llandysul, SA44 5XU	Wedi cefnogi'r ymgeiswyr / cais yn ysgrifenedig.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/04739	<p>Codi preswylfa menter wledig a gwaith cysylltiedig yn Nhreale, Felindre, Llandysul, SA44 5XU</p> <p>(NODER: Roedd y Cynghorydd J.K. Howell wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw ond arhosodd yn y cyfarfod. Ni wnaeth y Cynghorydd P. Cooper, A. Leyshon, T. Davies and D. Owen gymryd rhan yn yr eitem hon na phleidleisio yn ei chylch gan nad oedd wedi bod yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol a wnaed gan y pwyllgor ar 25 Mai 2023).</p>
PL/05763	<p>Adeiladu wal claddfa silwair, to a gwaith cysylltiedig dros y gladdfa silwair bresennol, tir sy'n rhan o Maenllwyd, Llan-saint, Cydweli, SA17 5HZ</p> <p>Cafwyd sylw gan yr aelod lleol a ddywedodd, er ei fod yn gefnogol i'r cais gan ei bod yn angenrheidiol cydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, fod ganddo bryderon am yr effaith y byddai'r datblygiad yn ei chael.</p> <p>Cyfeiriwyd at yr effaith niweidiol ar yr economi ymwelwyr, yn benodol y maes carafanau cyfagos sy'n creu cyflogaeth ac yn cynhyrchu refeniw mawr ei angen ar gyfer yr ardaloedd cyfagos.</p> <p>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried.</p>

3.2 PENDERFYNWYD gwrthod y ceisiadau cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd:

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

<p>PL/05635</p>	<p>Codi byngalo unllawr pwrpasol newydd sy'n cydymffurfio o ran anabledd i ddiwallu anghenion anabledd, 34 Clos Coed Derw, Pen-y-groes, Llanelli, SA14 7RD</p> <p>Cafwyd sylw gan yr aelod lleol a oedd yn cefnogi'r cais mewn perthynas ag amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Dywedodd fod angen tŷ wedi'i addasu yn yr ardal sy'n agos at aelodau'r teulu oherwydd bod ei iechyd wedi dirywio. Hefyd dywedwyd nad oedd y datblygiad ond ychydig y tu allan i'r terfynau datblygu.</p> <p>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried.</p>
<p>PL/05971</p>	<p>Estyniad unllawr i breswylfa ar ffurf rhandy mam-gu, 14 Heol Parcdir, Rhydaman, SA18 3TF</p> <p>Cafwyd sylw gan yr aelod lleol i gefnogi'r cais ar y sail nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law ac na fyddai maint yr adeilad yn cael effaith ar yr ardal gyfagos.</p> <p>Cyfeiriwyd at amgylchiadau personol yr ymgeisydd a'r teulu. Nodwyd mai pwrpas y rhandy oedd caniatáu i'r ymgeisydd ofalu am aelod o'r teulu y mae ei iechyd wedi bod yn dirywio.</p> <p>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried.</p>

4. ADRODDIAD APELIADAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn rhoi gwybodaeth am apeliadau cynllunio a gyflwynwyd fel yr oedd ar 10 Gorffennaf, 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 22AIN MEHEFIN 2023

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2023, gan eu bod yn gywir.

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf